Dalen Ffeithiau 2 – Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer rhieni unigol

Beth yw'r newidiadau?

Os ydych yn rhiant unigol â phlant oedran ysgol, efallai na fydd gennych hawl i Gymhorthdal Incwm. Yn hytrach, gyda'n cymorth bydd yn rhaid i chi chwilio am waith â thâl a gwneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os na allwch weithio oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd.

Sut y bydd hyn yn effeithio arnaf?

Mae'r daflen ffeithiau hon yn rhoi mwy o wybodaeth am hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau eraill gan gynnwys Lwfans Cyflogaeth a Chymorth gofynnwch i'ch ymgynghorydd.

Beth yw Lwfans Ceisio Gwaith?

Mae Lwfans Ceisio Gwaith yn fudd-dal ar gyfer pobl sydd allan o waith. Er mwyn ei gael, rhaid eich bod ar gael i weithio neu wrthi'n chwilio am waith.

Pan wnewch gais am Lwfans Ceisio Gwaith byddwch yn cytuno ar gamau y byddwch yn eu cymryd i roi'r cyfle gorau i chi ddod o hyd i waith gyda'ch ymgynghorydd. Caiff y camau hyn eu cynnwys mewn Cytundeb Ceisio Gwaith y mae'n rhaid i chi ei lofnodi. Unwaith y byddwch wedi ei lofnodi, cewch gopi i'ch atgoffa o'ch camau cytûn.

I gael Lwfans Ceisio Gwaith, fel arfer bydd angen i chi fynd i'ch Canolfan Gwaith agosaf pob pythefnos am Adolygiad Chwiliad Gwaith. Bydd eich ymgynghorydd yn rhoi gwybod i chi pryd i fynd i bob adolygiad. Yn ystod yr adolygiad, bydd rhaid i chi ddweud wrthym yr hyn rydych wedi'i wneud i ddod o hyd i waith a gallai fod o gymorth pe byddech yn gwneud nodyn o'r hyn rydych wedi'i wneud er mwyn eich atgoffa. Gofynnir i chi hefyd lofnodi datganiad sy'n dweud eich bod wedi bod yn chwilio am waith a'ch bod ar gael i weithio, eich bod wedi bod yn gwneud yr hyn a nodir yn eich Cytundeb Ceisio Gwaith ac nad oes dim wedi newid a allai effeithio ar eich taliadau.

Rydym wedi gwneud rhai newidiadau i Lwfans Ceisio Gwaith ar gyfer rhieni, a allai fod yn cael rhai anawsterau wrth chwilio am waith a bod ar gael i weithio o ganlyniad i gyfrifoldebau gofal plant, yn enwedig rhieni unigol. Bydd eich ymgynghorydd yn trafod y rhain gyda chi.

Beth yw ystyr 'wrthi'n chwilio am waith'?

Pan gewch Lwfans Ceisio Gwaith rhaid i chi ddangos beth rydych wedi ei wneud bob wythnos i ddod o hyd i waith neu wella eich cyfle o gael gwaith. Er enghraifft, gallai hyn olygu ysgrifennu CV, siarad â chyflogwr neu fynd am gyfweliad am waith.

Beth yw ystyr 'ar gael i weithio'?

I'r rhan fwyaf o bobl, ystyr 'ar gael i weithio' yw bod yn rhaid i chi fod yn barod i ddechrau gweithio ar unwaith. Os ydych yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith fel rhiant unigol, rydym yn cydnabod y gallai fod angen rhagor o amser arnoch oherwydd eich cyfrifoldebau gofal plant. Rhaid i chi fod yn barod i gymryd rhan mewn cyfweliad gwaith o fewn 7 diwrnod o gael un, ac yn gallu gweithio o fewn 28 diwrnod o gael cynnig swydd.

Fel rhiant unigol, mae'n bosibl y gallwch drefnu'r oriau rydych ar gael i weithio i gyfateb â'ch cyfrifoldebau gofal plant. Os oes gennych gontract/gorchymyn rhianta a gytunwyd neu a gyflwynwyd ar ôl i'ch plentyn gael ei ddiarddel o'r ysgol, cyflawni triwantiaeth neu gamymddwyn, mae'n bosibl y gallwch leihau nifer yr oriau rydych ar gael i weithio. Bydd eich ymgynghorydd yn dweud mwy wrthych.

Alla i gyfyngu ar nifer yr oriau y gallaf weithio ac a fydd hynny'n effeithio ar fy nghais am Lwfans Ceisio Gwaith?

Fel rhiant unigol gyda chyfrifoldebau gofal plant, mae'n bosibl y gallwch gyfyngu ar nifer yr oriau y gallwch weithio i 16 awr yr wythnos heb iddo effeithio ar eich cais am Lwfans Ceisio Gwaith. Hefyd, os oes gennych blentyn ieuengaf sy'n 12 oed neu'n iau, mae gennych yr hawl i gyfyngu ar yr oriau rydych ar gael i weithio i oriau eich plentyn ysgol arferol. Mewn rhai amgylchiadau gall y Ganolfan Byd Gwaith dderbyn na allwch weithio. Ymhlith yr amgylchiadau hyn mae:

- os na allwch drefnu gofal plant fforddiadwy neu briodol ar adeg pan gaiff eich plentyn ei ddiarddel o'r ysgol, neu yn ystod gwyliau ysgol. Byddwch yn dal yn gorfod dangos eich bod wedi gwneud ymdrechion rhesymol i ddod o hyd i ofal plant.

- os oes marwolaeth, salwch difrifol neu argyfwng domestig sy'n eich cynnwys chi, perthynas agos neu ffrind agos. Yn yr amgylchiadau hyn gall y Ganolfan Byd Gwaith dderbyn nad ydych ar gael i weithio am un wythnos ar 4 achlysur mewn unrhyw 12 mis ar y mwyaf. Gellir cynyddu un o'r cyfnodau hyn hyd at 8 wythnos gyda'r gweddill yn cael ei gymryd mewn 3 chyfnod o un wythnos. Dim ond unwaith mewn unrhyw gyfnod 12 mis y gall hyn ddigwydd.

Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn mynd i Adolygiad Chwiliad Gwaith?

Pan fyddwch yn cwblhau eich Cytundeb Ceisio Gwaith, bydd yn rhaid i chi gytuno i fynd i Adolygiad Chwiliad Gwaith rheolaidd. Os methwch adolygiad, neu os na fyddwch yn mynd i unrhyw gyfweliad arall gydag ymgynghorydd a drefnwyd i chi, rhaid i chi roi gwybod i ni ar unwaith ac egluro pam na allwch ddod. Bydd angen i chi allu dangos bod gennych reswm da dros beidio â dod.

Beth sy'n digwydd os cynigir swydd i mi ond na allaf ddod o hyd i ofal plant?

Os gwrthodwch gynnig swydd gan eich bod yn teimlo nad oedd gofal plant fforddiadwy neu briodol ar gael, bydd ymgynghorydd yn rhoi gwybod i chi ac yn ystyried p'un a oedd yn rhesymol i chi wneud hynny. Os derbynnir eich rheswm gallech barhau i gael Lwfans Ceisio Gwaith.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy nhrefniadau gofal plant yn methu a bod yn rhaid i mi adael fy swydd?

Os gadewch eich swydd oherwydd bod gennych broblemau gofal plant, bydd ymgynghorydd yn rhoi gwybod i chi a oedd yn rhesymol i chi wneud hynny. Os derbynnir eich rheswm gallech barhau i gael Lwfans Ceisio Gwaith.

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am symud i mewn i waith neu hyfforddiant, gallwch:

- ymweld â www.direct.gov.uk

- trefnu apwyntiad gydag ymgynghorydd yn eich Canolfan Gwaith agosaf.

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau